
Tirweddau Cenedlaethol: Gwireddu eu Potensial

Adolygiad o Dirweddau
Dynodedig yng Nghymru
Adroddiad Terfynol


Yr Athro Terry Marsden

John Lloyd-Jones

Dr Ruth Williams

CYMRU

Parciau Cenedlaethol & AHNE



© Hawffraint a hawliau cronfa ddata'r Goron 2014.
Arolwg Ordnans 100021874
Cartograffeg • Ulywodraeth Cymru
Ebrill 2014

Cynnwys

Rhagair y Cadeirydd.....	4
Crynodeb Gweithredol ac Argymhellion.....	7
Pennod 1. Cyflwyniad.....	27
Pennod 2. Sut aethom ati i gasglu tystiolaeth ar gyfer Cam Dau.....	31
Pennod 3. Ymatebion i'r cais am dystiolaeth.....	35
Pennod 4. Cyd-destun sy'n newid i Dirweddau Dynodedig Cymru.....	37
Pennod 5. Llywodraethu Tirweddau Dynodedig Cymru – y Model Presennol	55
Pennod 6. Egwyddorion a Dibenion Tirweddau Dynodedig Cymru.....	103
Pennod 7. Gweledigaeth ar gyfer Tirweddau Cenedlaethol Cymru.....	113
Pennod 8. Fframwaith Llywodraethu Newydd ar gyfer Tirweddau Dynodedig Cymru	129
Atodiad	
Atodiad i. Adolygiad o Dirweddau Dynodedig yng Nghymru..... Argymhellion Cam Un	166
Atodiad ii. Cais am gyfraniadau tystiolaeth Cam Dau	170
Atodiad iii. Sesiynau casglu tystiolaeth Cam Dau.....	172
Atodiad iv. Astudiaethau Achos.....	176
Atodiad v. Llyfryddiaeth.....	227
Atodiad vi. Cynllun Rheoli Parc Cenedlaethol a dangosyddion Adroddiadau ar Gyflwr y Parciau	235
Atodiad vii. Diagram Ilif Arian.....	242
Atodiad viii. Diagram Ilif Rheoli Contractau	243
Atodiad ix. Diagram Ilif Rheoli Datblygiadau Cynllunio.....	244
Atodiad x. Diagram Ilif Gorfodaeth Cynllunio.....	245

Rhagair y Cadeirydd

Dros y flwyddyn ddiwethaf bûm yn gweithio, ynghyd ag aelodau'r panel, Dr Ruth Williams a John Lloyd Jones, i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol ar adolygiad annibynnol o Dirweddau Dynodedig Cymru. Mae'r Gweinidog "eisiau sicrhau bod ein tirweddau dynodedig yn y sefyllfa orau i fodloni'r heriau cyfredol a heriau'r dyfodol, ac adeiladu ar eu statws sy'n cael ei gydnabod yn rhyngwladol".

Ein gwaith, a'r hyn y cawsom ein hannog i'w wneud, oedd creu dull parhaol a llawn gweledigaeth o alluogi'r ardaloedd hyn sy'n bwysig yn genedlaethol i ymateb i heriau ac amodau gwahanol iawn i'r hyn a'u hwynebai pan gawsant eu sefydlu'n gyntaf yn y cyfnod yn syth ar ôl y rhyfel. Mae'r ffaith eu bod yn dal yno ac yn cael eu gwerthfawrogi cymaint gan gynifer o bobl ynnddi ei hun yn dystiolaeth o weledigaeth ac arloesedd eu sylfaenwyr yn y cyfnod hwnnw, ac er y cafwyd rhai addasiadau technegol o ran eu statws yn ystod y cyfnod a ddilynodd, mae'n bwysig parchu llwyddiant parhaus y dynodiadau dros y trigain mlynedd neu fwy ers eu sefydlu.

Er eu llwyddiant, ac yn wir yn rhannol o'i herwydd, rydym wedi cytuno â'r Gweinidog ei bod yn bwysig ac yn amserol i ni feithrin ymagwedd annibynnol, ffres, mwy hirdymor a llawn gweledigaeth tuag at y dibenion sy'n sail i'w statws gwarchodedig, a'u trefniadau llywodraethu cyffredinol ar yr adeg hon. Mae cydbwysu eu hamcanion gwreiddiol deul o warchod eu harddwch naturiol ac annog mynediad iddynt gan y cyhoedd yr un mor bwysig yn awr ag yn y cyfnod yn syth ar ôl y rhyfel; adeg pan welwyd yn glir fod angen ymestyn a diogelu hawliau tramwy cyhoeddus i'n tirweddau mwyaf annwyl a nodedig. Mae'r hawliau cyhoeddus a'r gofynion hyn yr un mor bwysig o hyd, ond mae tirweddau dynodedig yn wynebu heriau eraill newydd, heriau y gellid dadlau eu bod yn fwy cymhleth, nad oeddent yn bodoli saith deg o flynyddoedd yn ôl.

Caiff y rhain eu crynhoi yn yr adroddiad terfynol hwn ac maent i'w gweld yn yr amrywiaeth eang o dystiolaeth a gawsom yn ysgrifenedig ac ar lafar; ac maent yn cwmpasu'n glir rôl ehangach y lleoedd hyn fel asedau tirwedd amgylcheddol a naturiol a gydnabyddir yn rhyngwladol, eu harwyddocâd diwylliannol ac economaidd-gymdeithasol byw a bywiog, a'u rôl bosibl yn parhau i ddiwallu anghenion y cyhoedd a llesiant cenedlaethau'r dyfodol. Ynghyd ag ymrwymiad clir Llywodraeth Cymru i ddatblygu cynaliadwy a llesiant, mae angen i ni sicrhau

bod yr offer gan ein tirweddau mwyaf annwyl i gynnal a gwella eu rôl ar gyfer y cenedlaethau i ddod, fel eu bod yn gallu profi ac elwa o'r rhain i'r un graddau.

Yn ystod yr adolygiad, gwelodd y panel ei bod hi'n hen bryd edrych o'r newydd ar ddibenion a threfniadau llywodraethu tirweddau dynodedig Cymru. Mae o leiaf dri rheswm am hyn. Yn gyntaf, mae graddfa a chymhlethdod yr heriau amgylcheddol (megis newid yn yr hinsawdd a cholli bioamrywiaeth) sydd bellach yn ein hwynebu yn yr 21ain ganrif yn hollol wahanol i'r rhai a welwyd yn syth wedi'r rhyfel pan sefydlwyd y dynodiadau hyn yn gyntaf. Mae'n rhaid i'r tirweddau dynodedig chwarae rhan flaenllaw ac arloesol er mwyn cyflawni ac adfer byd carbon isel, a byd ôl-garbon wedyn, y bydd angen iddo esblygu dros yr ychydig ddegawdau nesaf (gweler y Gymdeithas Frenhinol, Gorffennaf 2015). Yn ail, mae maint yr anghydraddoldebau gofodol a chymdeithasol ym maes lles, iechyd, addysg a mynediad at hamdden awyr agored yn galw am lawer mwy gan y tirweddau dynodedig o ran gwella defnydd ehangach a mwy amrywiol o'u hasedau naturiol a ffisegol. Yn drydydd, ac mewn perthynas uniongyrchol â'r ddau bwynt cyntaf, mae angen i'r ardaloedd hyn fod yn gartref i gymunedau gwledig llawer mwy ffyniannus, lle gellir cadw, hyfforddi a denu pobl ifanc â chartrefi a swyddi cynaliadwy.

Mae'r tirweddau dynodedig bellach yn llawer mwy nag 'ysgyfaint gwyrdd' goddefol i boblogaethau trefol; fel y nodwn yn ein gweledigaeth, maent yn **'ffatrioedd llesiant'** newydd, dynamig a chynhyrchiol.

Dechreuodd y panel ar ei waith gyda hyn mewn cof a mynd ati i gynhyrchu'r adroddiad rydych yn ei ddarllen yn awr. Mae'r adroddiad terfynol hwn yn cyflwyno pob un o ganfyddiadau ac argymhellion yr adolygiad, yn cynnwys canfyddiadau ac argymhellion cam 1 sy'n gysylltiedig â natur y Dynodiadau a'u Dibenion a'u Dyletswyddau; a cham dau, sydd wedi adolygu trefniadau llywodraethu, swyddogaethau cynllunio a chynrychiolaeth effeithiol ac atebolrwydd.

Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi casglu ystod eang o dystiolaeth yn sail i'n canfyddiadau a'n hargymhellion, yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol. Yn yr adroddiad hwn rydym wedi hidlo cyfres o Egwyddorion sydd wedi llywio'r newidiadau i'r Dibenion. Yna, nodwyd Gweledigaeth newydd ar gyfer y Tirweddau Cenedlaethol, sy'n creu 25% o arwynebedd tir Cymru. Mae'r adrannau olaf yn nodi'n fanwl y trefniadau Llywodraethu a argymhellir ar gyfer cyflawni'r Weledigaeth hon.

Rydym yn argymhell Fframwaith Llywodraethu Tirweddau Cenedlaethol newydd a chynhwysfawr ar gyfer ein Tirweddau Cenedlaethol a gydnabyddir yn rhyngwladol. Rydym yn

cymeradwyo'r argymhellion hyn i'r Gweinidog, ac yn credu y byddant yn gwella perfformiad y tirweddau drwy gyfrannu'n llawnach tuag at agenda bolisi ac uchelgeisiau Llywodraeth Cymru ar draws y meysydd amgylcheddol, iechyd a lles, economaidd, datblygu cymunedol ac addysg. Byddant hefyd yn gwella cyfranogiad ac atebolrwydd yn genedlaethol ac yn lleol ac ar draws ystod ehangach o grwpiau amrywiol.

Drwy gydol cam cyntaf yr adolygiad cawsom ein taro gan frwdfrydedd amrywiaeth eang o randdeiliaid ynglŷn â'r ymdrech hon. Maent hefyd yn adleisio'r statws unigryw ac amlwg sydd i dirweddau dynodedig ym mywyd diwylliannol Cymru a'r DU.

Diolchiadau

Unwaith eto, hoffwn ganmol ysbryd cydweithredol, ymroddiad gwaith a chrebwyll profiadol fy nghydweithwyr, Dr Ruth Williams a John Lloyd Jones wrth gytuno ar yr argymhellion ar y cyd.

Mae'r Adolygiad, yn ei gyfanrwydd, wedi elwa'n fawr o'r diddordeb a gynhyrchodd ymhlith y cyhoedd a'r cyfraniadau llafar ac ysgrifenedig o bob rhan o Gymru a thu hwnt. Hoffai'r panel ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu am eu gwybodaeth, eu profiad a'u brwdfrydedd ynghylch pob un o'n tirweddau dynodedig.

Mae'r panel hefyd yn dymuno cydnabod y cymorth ysgrifenyddol ardderchog a gafodd gan dîm Tirweddau Dynodedig Llywodraeth Cymru, sy'n cynnwys Greg Pycroft, Ieuan Llŷr Jones ac Emily Kennedy. Hoffem hefyd ddiolch i Dr Marc Adams am y gefnogaeth ymchwil a ddarparodd yn ystod yr ail gam a'r Athrofa Ymchwil Lleoedd Cynaliadwy (PLACE) ym Mhrifysgol Caerdydd lle y cynhaliwyd y rhan fwyaf o'n cyfarfodydd.



Yr Athro Terry Marsden
Cadeirydd

Adolygiad o Dirweddau Dynodedig yng Nghymru

Crynodeb Gweithredol a Argymhellion

Cafodd Yr Adolygiad o Dirluniau Dynodedig yng Nghymru ei gomisiynu gan Carl Sargeant AC, Gweinidog dros Gyfoeth Naturiol yn 2014 i "sicrhau bod ein tirweddau dynodedig yn y sefyllfa orau i fodloni'r heriau cyfredol a heriau'r dyfodol, ac adeiladu ar eu statws sy'n cael ei gydnabod yn rhyngwladol".

Roedd hefyd am i ni ystyried y trefniadau llywodraethu a rheoli o'r wyth tirwedd ddynodedig Cymru; sut y byddai unrhyw ddyfodol gorff/gyrff llywodraethu yn hyrwyddo, cydweithio a gweithio ar y cyd orau wrth osgoi dyblygu a sut y byddai unrhyw gorff llywodraethu yn y dyfodol yn atgyfnerthu atebolrwydd lleol a gwneud penderfyniadau gorau. Gofynnwyd i ni hefyd ystyried rôl yr Awdurdodau Parciau


Cenedlaethol yn y dyfodol fel awdurdodau cynllunio ac i ystyried hyrwyddo amrywiaeth ar fyrddau'r cyrff sy'n rheoli'r ardaloedd hyn.

Roedd hefyd am i ni ystyried y trefniadau llywodraethu a rheoli o'r wyth dirweddau dynodedig Cymru; sut y byddai unrhyw dyfodol gorff/gyrff llywodraethu yn hyrwyddo, cydweithio a gweithio ar y cyd orau tra'n osgoi dyblygu a sut y byddai unrhyw gorff llywodraethu yn y dyfodol yn atgyfnerthu atebolrwydd lleol a gwneud penderfyniadau gorau. Gofynnwyd i ni hefyd ystyried rôl yr Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yn y dyfodol fel awdurdodau cynllunio ac i ystyried hyrwyddo amrywiaeth ar fyrddau y cyrff sy'n rheoli y'r ardaloedd hyn.

Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi cymryd ystod eang o dystiolaeth, yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, i seilio ein canfyddiadau a'r argymhellion hyn yn cael eu nodi yn fanylach yn y Penodau canlynol.

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno cyfres o argymhellion sy'n bodloni gofynion a osodwyd gan y Gweinidog ac maent yn gysylltiedig (gweler Ffigur i). Rydym wedi cynhyrchu cyfres o egwyddorion

Ffigur i: Llywodraethu o egwyddorion i ddarpariaeth



arweiniol sydd wedi, yn ei dro, hysbysodd y newidiadau yr ydym wedi'u gwneud i Ddibenion dirweddau dynodedig yng Nghymru. Yna, byddwn yn amlinellu Gweledigaeth newydd ar gyfer y Tirweddau Cenedlaethol, sy'n cynrychioli 25% o arwynebedd tir Cymru, ac yn olaf byddwn yn gosod ein hargymell er mwyn darparu'r Fframwaith Llywodraethu.

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno cyfres o argymhellion sy'n bodloni y gofynion a osodwyd gan y Gweinidog ac maent yn gyd gysylltiedig (gweler Ffigur i). Rydym wedi cynhyrchu cyfres o **Egwyddorion** arweiniol sydd wedi, yn ei tro, goleuo y newidiadau yr ydym wedi'u gwneud i **Ddibenion** dirweddau dynodedig yng Nghymru. Yna, goswyd allan **Gweledigaeth** newydd ar gyfer y Tirweddau Cenedlaethol, sy'n cynrychioli 25% o arwynebedd tir Cymru, a yn olaf osodwyd ein Fframwaith Llywodraethu argymhellir ar gyfer cyflwyno.

Mae ein safbwynt o ein tirweddau dynodedig wedi newid, maent yn parhau i fod, mewn rhyw ystyr, y 'ysgyfaint gwyrdd' goddefol ar gyfer y poblogaethau trefol, ond mae hefyd ganddynt y potensial i fod yn 'ffatrioedd o les' deinamig a chynhyrchiol. Mae ein hargymhellion yn helpu ein tirweddau dynodedig sylweddoli'r potensial hwn ac rydym yn edrych ymlaen at gefnogaeth Llywodraeth Cymru i ganiatáu'r ¼ hon o Gymru i gyfranni ar gyfer y Genedl yn ei gyfanrwydd.

Y Egwyddorion

Argymhelliad 1

Ein hegwyddorion arweiniol:

- **Mae angen i ni edrych ar y dibenion o fewn amserlen tymor canolig i dymor hir, er mwyn sicrhau'r un dilyniant yn y dyfodol ag a gafwyd dros y trigain mlynedd diwethaf.**
- **Fodd bynnag, mae'n bwysig peidio dibynnu gormod ar y gorffennol wrth ffurfio gweledigaeth newydd ddiwygiedig ar gyfer y tirweddau dynodedig sy'n cydnabod yr heriau sylweddol maent yn eu hwynebu yn y dyfodol.**
- **Cysoni'r dibenion i gydnabod bod y ddau ddynodiad wedi bod yn gweithredu mewn gwirionedd ac i wahanol raddau y tu hwnt i'w cylch gwaith gwreiddiol ers cryn amser.**

- Y dylai unrhyw newidiadau i ddibenion fod yn rhai parhaol, a chlr ac yn debygol o sicrhau ac ymgorffori'r flaenoriaeth a roddwyd o dan 'Egwyddor Sandford', gan roi blaenoriaeth i'r diben cyntaf. Daeth yn glir hefyd, pe byddai nifer y dibenion yn cynyddu, (a) y byddai'n rhaid i'r rhai eraill roi blaenoriaeth i'r gyntaf mewn achos o wrthdaro clir; ac, yr un mor bwysig, (b) byddai'r gweddill yn cyd-atgyfnerthu a rhwymo i gyflawni'r cyntaf. Mae'r dull hwn, sef "Sandford Uwch", yn cysylltu ac integreiddio unrhyw ddibenion ychwanegol.
- Roedd dadl gref hefyd dros ailystyried y dyletswyddau statudol ar gyrff cysylltiedig er mwyn eu hegluro a'u cryfhau. Dylai hyn sicrhau bod y gyrff tirweddau dynodedig eu hunain a'r sefydliadau cenedlaethol a lleol perthnasol – gan gynnwys cwmnïau cyfleustodau a Llywodraeth Cymru – yn cydymffurfio â'r dibenion a'r ddyletswydd.
- Sylweddoli pwysigrwydd rhwymedigaethau rhyngwladol; y gwersi a'r cyfleoedd maent yn eu rhoi i Gymru.
- Sicrhau bod y dibenion yn gallu parhau i fodloni rhwymedigaethau rhyngwladol a safonau cadwraeth natur a gwarchod tirweddau e.e. categorïau IUCN a'r Confensiwn Tirweddau Ewropeaidd, ac annog eu gyrff perthnasol i gynnal a rhagori ar y rhwymedigaethau a'r safonau hynny.
- Ymdrechu i gael dibenion sy'n barhaol ac y gellir eu defnyddio mewn ardaloedd eraill yn y dyfodol, yn cynnwys ardaloedd morol.
- Dylai unrhyw newidiadau a argymhellir i gyfeiriad a/neu eiriad y dibenion gael eu gwneud yn y cyd-destun eu bod yn: (a) glir, manwl, diamwys a chyson; (b) yn hawdd i'w deall ac yn cyfleu cyfeiriad clir; (c) yn gadarn yn gyfreithiol a thechnegol.
- Dylai unrhyw newidiadau a argymhellir sicrhau cydbwysedd doeth rhwng darparu diben cyson cyffredinol, ac annog a dathlu amrywiaeth naturiol a diwylliannol y teulu o dirweddau gwarchodedig eu hunain.
- Parhau i ystyried cryfder a gwerth y Parciau Cenedlaethol a'r Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol, a pheidio â thanseilio eu manteision ledled Cymru.
- Osgoi cyfaddawdu y lleoedd hyn drwy osod unrhyw faich ychwanegol diangen ar bwrs y wlad; a gwella effeithlonrwydd arian cyhoeddus lle bo'n bosibl.
- Dehongli'r dibenion a'r dyletswyddau mewn ffyrdd sy'n cyflawni ar draws agenda bolisi Llywodraeth Cymru yn ei chyfanrwydd.

Dylai Llywodraeth Cymru fabwysiadu'r egwyddorion arweiniol hyn.

Argymhelliad 2

Ni ddylid cael un dynodiad yn unig.

Y Pwrpasau

Argymhelliad 3

Dylid cael UN set o ddibenion statudol ac un ddyletswydd statudol gysylltiedig ar gyfer y ddau ddynodiad.

Argymhelliad 4

Dylai Llywodraeth Cymru gadw'r enwau "Parciau Cenedlaethol" ac "Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol" (AHNE) fel prif ddynodiadau "Tirweddau Cenedlaethol Cymru".

Argymhelliad 5

Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu cyfundrefn enwi gyson a chadarn, a'r enw ar y ddau ddynodiad gyda'i gilydd fydd:

"Tirweddau Cenedlaethol Cymru"

Bydd "Parc Cenedlaethol" ac "Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol" yn "Ddynodiadau Cyfwerth"

Byddai gan y Dynodiadau Cyfwerth yr un dibenion a dyletswyddau statudol

Argymhelliad 6

Dylai fod *TRI* diben statudol *CYDGLOËDIG* ar gyfer y Parciau Cenedlaethol a'r AHNE.

sef:

“Gwarchod a gwella'r dirwedd unigryw a rhinweddau morweddol yr ardal¹.”

(Diben Cadwraeth)

“Hybu lles ffisegol a meddyliol drwy fwynhau a deall tirwedd yr ardal.”

(Diben Lles Dynol)

“Hybu ffurfiau cynaliadwy o ddatblygiad economaidd a chymunedol yn seiliedig ar reoli adnoddau naturiol a threftadaeth ddiwylliannol yr ardal.”

(Diben Rheoli Adnoddau Cynaliadwy)

Argymhelliad 7

Bydd Egwyddor Sandford, sy'n cadarnhau blaenoriaeth y diben cadwraeth, yn cael ei defnyddio ar draws yr holl dirweddau dynodedig.

Argymhelliad 8

Dylai fod un Ddyletswydd Statudol newydd sy'n dileu'r geiriad gwan “rhoi sylw i” yn y ddyletswyddau cyfredol ar gyfer cyrff cyhoeddus perthnasol, a chyflwyno un ddyletswydd eglur yn eu lle:

“Cyfrannu at gyflawni tri diben y Tirweddau Cenedlaethol.”

¹ Pan fo 'tirwedd' yn cynnwys holl amgylchedd naturiol yr ardal, ynghyd â'i bioamrywiaeth, setliadau dynol ac agweddau diwylliannol. Mae'n bwysig iawn pwysleisio arwyddocâd datblygu elfennau diogelu bioamrywiaeth ac adfer yn y Diben Cadwraeth a hyrwyddo cynnydd tuag at fodloni safonau rhyngwladol y Confensiwn Bioamrywiaeth Rhyngwladol nad ydynt wedi'u bodloni yng Nghymru eto. Mae hwn hefyd yn cynnwys diffiniad y Confensiwn Tirweddau Ewropeaidd (Cyngor Ewrop, 2000) o dirwedd fel 'ardal, wedi'i dehongli gan bobl, y mae ei chymeriad yn ganlyniad i weithredu a rhyngweithio rhwng ffactorau naturiol a/neu ddynol'. (Erthygl 1a.) Ac mae'n cymryd yr eir ati i wella 'camau gweithredu i warchod a chynnal arwyddocâd neu nodweddion tirwedd, a gyfiawnheir gan ei gwerth treftadol sy'n deillio o'i chyfluniad naturiol ac/neu o weithgarwch dynol' (erthygl 1d).

Y Weledigaeth

Mae angen i'r weledigaeth i lywyddu a rhoi cyfeiriad i lywodraethu ar aml-lefel ag deinamig am y lleoedd arbennig hyn. Yna gall y Tirweddau Cenedlaethol cael eu lleoli fel lleoedd arloesol ag arweiniol ar gyfer dal ac integreiddio'r economi amgylcheddol, ag y nodau lles a chynaliadwyedd, ac yn eu gosod fel canolfannau rhanbarthol ar gyfer datblygu gwledig cynaliadwy a darparwyr gwasanaethau ecosystem.

Argymhelliad 9

Gweledigaeth ar gyfer Tirweddau Cenedlaethol Cymru

Mae Tirweddau Cenedlaethol Cymru yn cael eu gwerthfawrogi gan y genedl fel "ffatrioedd llesiant" pwysig sy'n gwella bywydau cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol drwy eu tri diben. Mae eu nodweddion arbennig yn cael eu cynnal, eu gwella a'u gwerthfawrogi yn eang. Maent yn ardaloedd ar gyfer cydweithredu arloesol yn seiliedig ar leoedd, sy'n mynd i'r afael â'r heriau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol sy'n wynebu Cymru, ac sy'n cael eu cydnabod yn rhyngwladol fel arweinwyr ym maes datblygu cynaliadwy.

Argymhelliad 10

Dylai'r 'ffatrioedd llesiant' a ragwelwyd gennym, Tirweddau Cenedlaethol Cymru, ddatblygu ac ysgogi mwy o bartneriaethau menter lleol, tai fforddiadwy cynaliadwy, ynni gwyrdd a mentrau manwerthu.

Argymhelliad 11

Bydd adeiladu ar y mentrau datblygu cymunedol mewn Tirweddau Cenedlaethol yn galw am barhau cyllid sbarduno ar gyfer prosiectau integredig sy'n cyfrannu at eu tri chyd-ddiben integredig.

Argymhelliad 12

Dylai Llywodraeth Cymru rymuso Tirweddau Cenedlaethol Cymru i ddod yn ganolfannau swyddogol ar gyfer arloesi ac yn gatalyddion ar gyfer datblygu rhanbarthol yn y Gymru wledig, o fewn eu terfynau amgylcheddol.

Argymhelliad 13

Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau y gall ac y bydd Tirweddau Cenedlaethol Cymru yn cyfrannu at 'Partneriaeth ar gyfer Twf: Strategaeth ar gyfer Twristiaeth 2013-2020' Llywodraeth Cymru - ar y cyd, ac yn unigol.

Argymhelliad 14

Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod y Tirweddau Cenedlaethol yn rhan o'r holl waith cynllunio a datblygu seilwaith yng Nghymru megis y Cynllun Buddsoddi yn y Seilwaith Cenedlaethol, Strategaeth Twf Gwyrdd a'r Fframwaith Cynllunio Cenedlaethol.

Argymhelliad 15

Mae angen i'r Tirweddau Cenedlaethol ddeall eu heconomiâu lleol a rhanbarthol yn well, ac yn enwedig eu heconomiâu twristiaeth.

Argymhelliad 16

Dylai Llywodraeth Cymru rymuso'r Tirweddau Cenedlaethol i gyflawni ei hagenda 'Twf Gwyrdd' a sefydlwyd ar briodas rhwng tirweddau eithriadol a datblygu cynaliadwy.

Argymhelliad 17

Dylai Llywodraeth Cymru hybu'r Tirweddau Cenedlaethol fel enghreifftiau blaenllaw i hyrwyddo Cymru yn rhyngwladol ym meysydd datblygu cynaliadwy, iechyd a thwristiaeth yn benodol.

Argymhelliad 18

Dylai Tirweddau Cenedlaethol Cymru uwchraddio eu polisïau iechyd a llesiant i gydfynd â'r ail ddiben newydd. Gellid cysylltu hyn â hygyrchedd gwell ac ehangach ac elfennau'n ymwneud â thwristiaeth gynaliadwy.

Argymhelliad 19

Dylai Tirweddau Cenedlaethol Cymru ymgymryd â mwy o arbrofion yn ymwneud ag iechyd a llesiant mewn perthynas â datblygu a chyrraedd rhannau o'r boblogaeth a chymunedau trefol a gwledig sy'n heriol. Gellid cyflwyno'r rhain ar y cyd â byrddau iechyd lleol.

Argymhelliad 20

Dylai Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru ymestyn y Tirweddau Cenedlaethol arfordirol i gynnwys ardaloedd morol cyfagos a mabwysiadu dull integredig o reoli adnoddau arfordirol yn yr ardaloedd hyn.

Argymhelliad 21

Dylai rheolwyr Tirweddau Cenedlaethol sicrhau bod rhan ganolog i ddefnyddwyr arfordirol yn eu prosesau cynllunio ar gyfer rheoli'r arfordir.

Argymhelliad 22

Dylid cymhwyso model llwyddiannus Fforwm Arfordir Sir Benfro yn fwy eang ar draws ardaloedd arfordirol y Tirweddau Cenedlaethol.

Argymhelliad 23

Dylai Tirweddau Cenedlaethol Cymru ddehongli ac ymgorffori argymhellion 9 i 22 uchod yn ddangosyddion a thargedau ar gyfer Cymru gyfan at ddibenion cynllunio prosesau rheoli ac adrodd ar lesiant.

Fframwaith Llywodraethu

Fframwaith Llywodraethu Newydd ar Gyfer Tirweddau Cenedlaethol Cymru

Er mwyn 'gwireddu potensial' y Tirweddau Cenedlaethol Cymru, i fynd i'r afael â'r rhwystrau a gwendidau ac i gyrraedd yn ffit gorau posibl rhwng y sefydliad o ddibenion a dyletswyddau - rydym yn argymhell fframwaith newydd o lywodraethu. Mae'r fframwaith yn cwmpasu pob un o'r wyth o'r cyrff rheoli tirwedd ddynodedig ac rydym yn gobeithio y byddant i gyd yn gweld ei werth ac yn cyfrannu at ei lwyddiant.

Argymhelliad 24

Dylai Llywodraeth Cymru fabwysiadu'r Fframwaith Llywodraethu newydd canlynol ar gyfer Tirweddau Cenedlaethol Cymru, fel y'i portreadir yn Ffigurau 16 ac 19 ac fel y'i disgrifir yn fanwl ym mhob un o'n Hargymhellion 25 i 69 sy'n dilyn.

Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac AHNE: Model ar gyfer cyflawni blaenoriaethau cenedlaethol yn lleol

Rydym yn credu bod hunaniaeth statudol a addaswyd yn seiliedig ar y model Awdurdod Diben Sengl ar gyfer Parciau Cenedlaethol a'r dull llywodraethu aml-model hyblyg ar gyfer AHNE yw'r dull mwyaf effeithiol ar gyfer meithrin mwy o gynrychiolaeth leol a rhanbarthol, rheoli ac atebolrwydd. Maent yn cael eu cydnabod yn rhyngwladol ar gyfer cydbwysu amcanion

cededlaethol yn effeithiol ag ystyriaethau lleol. Dylai'r dull hwn hefyd darparu'r cyrff tirwedd ddynodedig gyda chyfleoedd pellach i ddenu cyllid ac adnoddau allanol ychwanegol.

Argymhelliad 25

Cadw'r model awdurdod lleol un diben ar gyfer rheoli Parciau Cenedlaethol.

Argymhelliad 26

Cadw a datblygu modelau rheoli AHNE hyblyg.

Argymhelliad 27

Bydd angen i Awdurdodau Parciau Cenedlaethol a chyrff AHNE ystyried sut y maent yn ailstrwythuro eu hunain er mwyn cyflawni'r tri diben newydd.

Argymhelliad 28

Dylai Llywodraeth Cymru leihau'r baich rheoliadol anghymesur ar Awdurdodau Parciau Cenedlaethol sydd wedi'i gynllunio ar gyfer awdurdodau lleol mwy o faint a mwy cymhleth.

Argymhelliad 29

Dylai Llywodraeth Cymru roi'r gallu i ymgeisio am gyllid o ystod ehangach o ffynonellau i Awdurdodau Parciau Cenedlaethol a chyrff AHNE.

Arweinyddiaeth: Newid radical mewn gwaith a diwylliant sefydliadol a rhyngasiantaethol

Rydym yn awyddus i newid y diwylliant sefydliadol llywodraethu o'r tirweddau a ddynodwyd o un o "barch" i un yn fwy atebol ac arloesol sy'n gwella pwerau "meddal" sy'n bodoli eisoes i gynnull.

Argymhelliad 30

Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu 'Bwrdd Partneriaeth Tirweddau Cenedlaethol' fel y dangosir yn Ffigur 17.

Argymhelliad 31

Dylai'r 8 Awdurdod Parc Cenedlaethol a'r cyrff AHNE sefydlu 'Pwyllgor Tirweddau Cenedlaethol Cymru' llai ymyrrol fel y dangosir yn Ffigur 18.

Argymhelliad 32

Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r cyrff Tirweddau Cenedlaethol a'r rhanddeiliaid perthnasol drwy'r Bwrdd Partneriaeth a'r Pwyllgor Cenedlaethol i gytuno, a chadw dan arolwg 'Strategaeth Tirweddau Cenedlaethol Cymru' drosfwaol.

Tirweddau Cenedlaethol a Llywodraeth Genedlaethol

O ystyried pwysigrwydd cenedlaethol y tirweddau a ddynodwyd i Gymru rydym yn rhagweld proffil llawer uwch ar eu cyfer yn y Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Rydym hefyd yn rhagweld ymgysylltu Gweinidogol uniongyrchol â'r Fframwaith Tirweddau Cenedlaethol.

Argymhelliad 33

Dylai Cynulliad Cenedlaethol Cymru graffu ar Gynlluniau Partneriaeth statudol pob un o Dirweddau Cenedlaethol Cymru cyn iddynt gael eu mabwysiadu.

Argymhelliad 34

Dylai Cynulliad Cenedlaethol Cymru, wrth iddo esblygu ei bensaernïaeth fewnol ei hun, ystyried y berthynas rhyngddo a Thirweddau Cenedlaethol Cymru i sicrhau cymaint ag y bo modd o graffu ac atebolrwydd.

Argymhelliad 35

Dylai Llywodraeth Cymru osod targedau a dangosyddion perfformiad ar gyfer Tirweddau Cenedlaethol Cymru sy'n deillio o'r Nodau Llesiant ac yn cyd-fynd â hwy.

Adrodd a Chynllunio Integredig

Mae'n amserol ac yn fwy effeithlon i integreiddio gofynion cynllunio o ddatblygiadau deddfwriaethol diweddar i UN ymarferiad Cynllunio Partneriaeth statudol sy'n ymgorffori, yn ei chanol, y Cynllun Partneriaeth statudol, ond hefyd yn cynnwys cynlluniau sy'n ymwneud â lles a rheoli adnoddau naturiol.

Argymhelliad 36

Dylai bod yna Un ymarfer cynllunio partneriaeth statudol ar gyfer pob un o'r tirweddau dynodedig.

Argymhelliad 37

Dylai Cynllun Partneriaeth statudol ardal integreiddio'r cynllun rheoli, cynllun llesiant a datganiadau ardal adnoddau naturiol cyfredol.

Partneriaethau Lleol

Mae rheolaeth lwyddiannus o'r ardaloedd arbennig yn dibynnu ar bartneriaethau cynhyrchiol gyda phawb sydd yn effeithio arnynt. Rydym am iddynt fod hyd yn oed yn fwy perthnasol yn economaidd, yn gymdeithasol ac yn ddiwylliannol, a fydd yn gofyn am wella ac ymgysylltu lleol gwell ag effeithiol rhwng yr holl rhanddeiliad perthnasol.

Argymhelliad 38

Dylid sefydlu 'Partneriaethau' wedi'u creu'n ffurfiol ym mhob un o'r Parciau Cenedlaethol i fod yn rhan agos o'r gwaith o baratoi a chyflwyno'r Cynllun Partneriaeth statudol.

Argymhelliad 39

Cadeirydd yr Awdurdod Parc Cenedlaethol a ddylai gadeirio Partneriaeth y Parciau Cenedlaethol.

Argymhelliad 40

Dylai fod perthynas wedi'i chytuno'n ffurfiol rhwng Partneriaeth y Parciau Cenedlaethol a'r Awdurdod Parc Cenedlaethol.

Argymhelliad 41

Dylai'r AHNE barhau i ddatblygu eu modelau gweithio mewn partneriaeth ddibynadwy, ond nid ydym yn teimlo y byddai dull 'un ateb addas i bawb' o fudd i'r AHNE.

Meithrin perthynas ochrol gyda Cyfoeth Naturiol Cymru ac awdurdodau lleol

Bydd NRW yn ffynhonnell bwysig o gyngor proffesiynol ar reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy a dylai'r tirweddau dynodedig elwa. Wrth i awdurdodau lleol mwy o faint yn dod i'r amlwg gallai cysylltiadau sydd eisoes yn bodoli rhyngddynt a'u AHNE fod yn rhy fregus, felly mae'n hanfodol sicrhau cysylltiadau cryf parhaus rhwng awdurdodau lleol ac AHNE. Rydym yn dymuno i atgyfnerthu a lledaenu arferion da sydd eisoes yn bodoli ar draws pob un o'r wyth tirwedd ddynodedig.

Argymhelliad 42

Dylai Cyfoeth Naturiol Cymru lunio rhestr gynhwysfawr o'u pŵerau a'u dyletswyddau statudol mewn perthynas â thirweddau dynodedig Cymru a sicrhau ei bod ar gael i Lywodraeth Cymru.

Argymhelliad 43

Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn cynnwys ac yn hyrwyddo'r tirweddau dynodedig ar y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus perthnasol.

Argymhelliad 44

Bydd angen i Cyfoeth Naturiol Cymru ac awdurdodau lleol roi sylw i'r Cynlluniau Partneriaeth statudol wrth gynnal eu hymarferion cynllunio yn eu hardaloedd.

Argymhelliad 45

Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn rhannu data ac yn darparu cyngor proffesiynol ar reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy i'r Tirweddau Cenedlaethol.

Argymhelliad 46

Dylai awdurdodau lleol atgyfnerthu a lledaenu eu harferion cydweithio gorau yn yr AHNE ar draws pob un o'r wyth Parc Cenedlaethol a'r AHNE.

Blaengynllunio a Rheoli Datblygu

Fe ddarganfyddom fod yr achos dros gael gwared ar bwerau cynllunio'r APC yn an-berswadiol, yn seiliedig ar hen enghreifftiau nad oedd yn adlewyrchu profiad cyfoes ac yn seiliedig i raddau helaeth ar ganfyddiad. Bydd yr Awdurdodau Parciau Cenedlaethol, sy'n rheoli'r dirwedd o 20% o Gymru yn angen i fod yn fwy integredig wrth gyflawni eu tri phwrpas. Er y bydd cynllunio yn parhau i fod un arf ymhlith y sawl sy'n ofynnol i gyflawni'r dibenion newydd, bydd yn cyflawni swyddogaeth allweddol yn dosbarthu cysondeb ar draws ein Parciau Cenedlaethol.

Argymhelliad 47

Dylai Awdurdodau Parciau Cenedlaethol gadw eu polisi cynllunio strategol a'u swyddogaethau rheoli datblygiadau cynllunio.

Argymhelliad 48

Dylai Llywodraeth Cymru atgyfnerthu a chefnogi cyngor cynllunio cyn gwneud cais gan yr Awdurdodau Parciau Cenedlaethol.

Argymhelliad 49

Dylai'r Pwyllgor Tirweddau Cenedlaethol gydgysylltu a helpu i rannu cost hyfforddiant ac addysg mewn materion cynllunio defnydd tir, yn enwedig ar gyfer cyflawni'r dibenion newydd.

Argymhelliad 50

Cyrff AHNE i ddod yn ymgylgoreion statudol ar geisiadau cynllunio gydag effaith sylweddol bosibl ar nodweddion arbennig eu hardaloedd.

Argymhelliad 51

Datblygu a sicrhau adnoddau ar gyfer system o gyngor cynllunio annibynnol ar gyfer AHNE ledled Cymru.

Argymhelliad 52

Datblygu cyfres o ddangosyddion canlyniadau cynllunio'r Parciau Cenedlaethol a'r AHNE ar gyfer Tirweddau Cenedlaethol Cymru.

Cynrychiolaeth leol ac amrywiaeth

Rydym am fanteisio ymhellach ar botensial ac angerdd y pwysigrwydd cenedlaethol a chyfleoedd lleol mewn Parciau Cenedlaethol ac AHNE, er mwyn sicrhau mwy o amrywiaeth mewn gwneud penderfyniadau, ac i adeiladu pontydd cryfach rhwng y tirweddau a ddynodwyd a'u hawdurdodau lleol cyfansoddol.

Argymhelliad 53

Dylai pob Awdurdod Parc Cenedlaethol gynnwys: $\frac{1}{2}$ Cynghorwyr Sir wedi'u henwebu, $\frac{1}{4}$ cynrychiolwyr y budd cenedlaethol wedi'u penodi gan Lywodraeth Cymru drwy gystadleuaeth agored, a $\frac{1}{4}$ cynrychiolwyr y budd lleol wedi'u penodi drwy gystadleuaeth agored gan yr aelodau a restrir uchod.

Argymhelliad 54

Dylai prosesau recriwtio a phenodi ar gyfer aelodau 'budd cenedlaethol' a 'budd lleol' Awdurdodau Parciau Cenedlaethol gynnwys arfer gorau i sicrhau amrywiaeth ymysg aelodaeth yr Awdurdod.

Argymhelliad 55

Datblygu a sefydlu'r camau cadarnhaol sydd wedi'u profi eisoes gan yr Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yn y tri Pharc Cenedlaethol er mwyn cynyddu amrywiaeth yn eu Hawdurdodau, hynny yw, dulliau Mosaic, mentora a Llysgennad.

Argymhelliad 56

Dylai Llywodraeth Cymru ddileu'r gofyniad am gydbwysedd gwleidyddol ymhlith aelodau awdurdodau lleol mewn Awdurdodau Parciau Cenedlaethol er mwyn cynyddu cynrychiolaeth leol. Felly dylai Cynghorwyr a benodir i Awdurdodau Parciau

Cenedlaethol gynrychioli wardiau oddi mewn i ffin y Parc Cenedlaethol neu wardiau sy'n pontio'r ffin. [Adran 15 Deddf Llywodraeth Leol a Thai, 1989 a Rheoliadau Llywodraeth Leol (Pwyllgorau a Grwpiau Gwleidyddol) 1990.]

Argymhelliad 57

Dylid cael trefniadau adrodd ffurfiol rhwng Cynghorwyr Awdurdod Parc Cenedlaethol a'u prif awdurdod lleol.

Argymhelliad 58

Dylai Llywodraeth Cymru osod dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i sefydlu pwyllgor ffurfiol i oruchwylio rheolaeth yr AHNE ac i ddirprwyo cyfrifoldeb yr awdurdod lleol dros baratoi Cynllun Rheoli AHNE i'r Pwyllgor hwn (ond heb ddirprwyo ei gyfrifoldebau o dan ei ddyletswydd i ddibenion yr AHNE a chyflawni agweddau perthnasol ar y Cynllun Rheoli). Rydym yn argymhell ailenwi hwn yn 'Bwyllgor Cyflenwi AHNE' yn hytrach na'r enw arferol: Cydbwyllgor Ymgynghorol.

Argymhelliad 59

Dylai Llywodraeth Cymru roi cyfarwyddyd i bob Pwyllgor Cyflenwi AHNE i gynnwys o leiaf un aelod Cabinet o bob awdurdod lleol cyfansoddol, o leiaf ddau gynrychiolydd budd cenedlaethol wedi'u penodi gan Lywodraeth Cymru drwy gystadleuaeth agored, ac o leiaf ddau gynrychiolydd budd lleol wedi'u penodi drwy gystadleuaeth agored gan weddill yr aelodau.

Argymhelliad 60

Dylai Llywodraeth Cymru ddileu'r gofyniad am gydbwysedd gwleidyddol rhwng aelodau awdurdodau lleol ym mhwyllgorau ffurfiol AHNE er mwyn cynyddu cynrychiolaeth leol. Felly dylai Cynghorwyr sydd wedi'u penodi i bwyllgorau ffurfiol AHNE (yn ogystal ag aelodau'r cabinet yn adran Rx uchod) gynrychioli wardiau oddi mewn i ffin yr AHNE,

neu sy'n pontio'r ffin. [Adran 15 Deddf Llywodraeth Leol a Thai, 1989 a Rheoliadau Llywodraeth Leol (Pwyllgorau a Grwpiau Gwleidyddol) 1990.]

Argymhelliad 61

Dylai'r prosesau penodi aelodau 'budd cenedlaethol' a 'budd lleol' pwyllgorau cyflenwi AHNE gynnwys arferion gorau o ran cydraddoldeb i sicrhau amrywiaeth ymysg aelodaeth y Pwyllgor.

Argymhelliad 62

Dylai'r AHNE fynd ati i ddysgu gwersi o raglenni peilot Awdurdodau Parciau Cenedlaethol a'u defnyddio i gynyddu amrywiaeth ymysg aelodaeth eu Pwyllgorau Cyflenwi. (Gallai Pwyllgor Tirweddau Cenedlaethol Cymru hwyluso dysgu o'r fath.)

Argymhelliad 63

Dylai Cyfoeth Naturiol Cymru barhau i fod yn gynghorydd allweddol i Bwyllgorau Cyflenwi AHNE.

Argymhelliad 64

Dylid cael trefniadau adrodd ffurfiol rhwng y Cynghorwyr ar Bwyllgorau Cyflenwi AHNE a'u prif awdurdodau lleol.

Trefniadau ariannu

Rydym yn credu y mae angen symleiddio'r trefniadau ariannu ar gyfer y cyrff dynodedig. Mae perfformiad effeithiol yn gofyn digon o gymorth, gan gynnwys cymorth ariannol, i gyflawni dros dirweddau dynodedig. Yn yr hinsawdd economaidd bresennol mae'r AHNE yn arbennig yn

agored i gael eu cyllid gwaelodlin danseilio oherwydd natur ddewisol eu llywodraeth leol a chyllid NRW.

Argymhelliad 65

Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu'r dyraniad grant craidd blynyddol i bob un o Dirweddau Cenedlaethol Cymru, a thrwy hynny gael gwared ar ardollau Cyfoeth Naturiol Cymru ac awdurdodau lleol.

Argymhelliad 66

Dylai Llywodraeth Cymru frigdorri'r dyraniad craidd ar gyfer mentrau cydweithredol a chenedlaethol strategol a phenodol (sy'n cael eu dyrannu drwy'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy a grantiau cystadleuol fel y Gronfa Natur ar hyn o bryd).

Argymhelliad 67

Dylai Llywodraeth Cymru reoli atebolrwydd am gyllid craidd drwy broses adolygu flynyddol wedi'i gweinyddu yn ôl meini prawf perfformiad y cytunwyd arnynt yn gysylltiedig â'r Nodau Llesiant a Chynlluniau Partneriaeth statudol y cyrff Tirweddau Cenedlaethol.

Argymhelliad 68

Dylai'r cyrff Tirweddau Cenedlaethol gael mwy o hyblygrwydd i ddenu ffynonellau ariannu allanol. Bydd hyn yn galw am newid yn strwythurau rheoli mewnol a swyddogaeth y cyrff hyn ac yn achos AHNE, eu perthynas â'u hawdurdodau lleol partner.

Argymhelliad 69

Dylai'r cyrff Tirweddau Cenedlaethol gael mwy o hyblygrwydd i gynhyrchu eu ffrydiau refeniw eu hunain drwy ddatblygu ystod ehangach o daliadau am wasanaethau

ecosystemau yn unol â'u dibenion. Bydd eu gallu i ddefnyddio a denu cyllid y Cynllun Datblygu Gwledig a chyllid cysylltiedig o'r Undeb Ewropeaidd yn bwysig.

Fframwaith Llywodraethu newydd ar gyfer Tirweddau Cenedlaethol Cymru

Mae'r fframwaith llywodraethu newydd yn ganlyniad o'r dystiolaeth a dderbyniwyd a'r ystyriaeth ofalus o'r panel dros y flwyddyn ddiwethaf. Rydym yn credu bod yn ei strwythurau a'r prosesau y mae'n eu darparu fframwaith cadarn ar gyfer darparu yn fwy effeithiol perfformiad, arweinyddiaeth a chyfeiriad, llais, atebolrwydd ac effeithlonrwydd cyhoeddus o'r ardaloedd tirwedd, ac yn hyn y mae'n ymgorffori ymagwedd llawer mwy seiliedig ar bartneriaeth gyda mwy o gynrychiolaeth. Mae'n caniatáu ar gyfer cyflwyno clir o'r set ddiwygiedig o ddibenion ac, yn ein barn ni, bydd yn cyflwyno rhaglen ddeddfwriaethol uchelgeisiol Llywodraeth Cymru ar lawr gwlad yn y Tirweddau Cenedlaethol.